Cronfa Ymddiriedolaeth Plant — Taflen Wybodaeth

Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP) yn gyfrif cynilo a buddsoddi a grëwyd yn arbennig ar gyfer plant. Mae'r arian sydd ynddo yn eiddo i'ch plentyn ac mae wedi ei gloi yn y cyfrif tan iddo/iddi gyrraedd 18 oed, felly mae amser hir ganddo i dyfu. Yn 18 oed gall ef/hi ddewis i barhau cynilo neu ddefnyddio'r arian ar gyfer pethau eraill, er enghraifft, offer cyfrifiadurol neu gyrsiau hyfforddi.

Mae gan bob plentyn a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 hawl i gael cyfrif CYP os yw ef/hi yn byw yn y DU, os yw Budd-dal Plant yn cael ei dderbyn ar eu cyfer ac nid yw ef/hi yn destun cyfyngiadau mewnfudo.

Faint bydd fy mhlentyn yn ei dderbyn?

Byddwch yn derbyn taleb CYP am £250 pan hawliwch a dechreuwch dderbyn Budd-dal Plant ar gyfer eich plentyn. Bydd plant o aelwydydd ar incwm isel (£16,190 neu lai yn 2010-11) yn derbyn £250 ychwanegol a delir yn uniongyrchol i'w cyfrif.

Bydd plant â salwch neu anabledd sydd â hawl i Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) yn cael £100 wedi ei dalu i'w cyfrifon yn flynyddol. Bydd plant sydd â hawl i'r gyfradd uchaf o elfen gofal LBA yn cael £200 yn flynyddol.
Telir £250 pellach yn awtomatig pan fydd eich plentyn yn cyrraedd saith oed a bydd plant o aelwydydd ar incwm isel yn cael £250 ychwanegol unwaith eto.

Os nad ydych wedi derbyn taleb neu os ydych wedi ei cholli, ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar 0845 302 1489.

Beth ddylwn wneud â'r daleb?

Gallwch ddefnyddio'r daleb i agor cyfrif CYP yn unig. Ceir tri math o gyfrif, a bydd yr un a ddewiswch yn dibynnu ar sut rydych yn teimlo ynghylch cymryd risg er mwyn rhoi gwell cyfle i'r arian dyfu.

Cyfrif Cyfranddeiliad Caiff arian eich plentyn ei fuddsoddi mewn cyfranddaliadau cwmnïau, felly bydd yn tyfu os bydd y cyfranddaliadau hynny'n gwneud yn dda. Lluniwyd rhai mesurau er mwyn lleihau'r risg sydd yn gysylltiedig â buddsoddi mewn cyfranddaliadau.

Cyfrif Cyfranddaliadau (nid cyfranddeiliad) Caiff arian eich plentyn ei fuddsoddi mewn cyfranddaliadau cwmnïau, felly bydd yn tyfu os bydd y cyfranddaliadau hynny'n gwneud yn dda. Yn wahanol i gyfrif cyfranddeiliad, does dim rheolau er mwyn lleihau'r risg o fuddsoddi mewn cyfranddaliadau.

Cyfrif Cynilo (nid cyfranddeiliad) Nid yw'r math hwn o gyfrif yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau. Dyma'r dewis ar gyfer arian parod ac mae'n talu llog.

Os na fyddwch yn agor cyfrif erbyn y dyddiad y daw'r daleb i ben, byddwn yn trefnu bod darparwr CYP yn agor cyfrif cyfranddeiliad ar gyfer eich plentyn. Ond bydd arian eich plentyn wedi colli'r cyfle i gynyddu dros flwyddyn gyfan.

Ni fydd arian yng nghyfrif CYP eich plentyn yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth a gewch, ac ni fyddwch chi na'ch plentyn yn talu treth ar arian a enillwyd mewn cyfrif CYP. Cofiwch, efallai na fydd cyfrif cynilo yn cynyddu cymaint â chyfrif gyda chyfranddaliadau ynddo, ond gall gwerth cyfranddaliadau fynd i lawn yn ogystal ag i fyny.

Pwy all agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant?

Er bydd y cyfrif CYP yn eiddo i'ch plentyn, dim ond rhiant (os yw'n 16 neu'n hŷn), neu rywun arall gyda chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn (term cyfreithiol sy'n golygu rhywun gyda hawliau a dyletswyddau rhiant), gall ddefnyddio taleb CYP i agor cyfrif. Y person sy'n agor y cyfrif fydd yn rheoli'r cyfrif tan ben-blwydd y plentyn yn 16 oed, pan all y plentyn ei reoli.

Os ydych yn rhiant sydd o dan 16 oed, ni allwch yn ôl y gyfraith reoli cyfrif CYP ond mae cymorth a chyngor ar gael o'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar 0845 302 1489.

Ble alla' i agor cyfrif?

O fanciau a chymdeithasau adeiladu i gymdeithasau cyfeillgar ac archfarchnadoedd - mae sawl man lle gallwch ddod o hyd i ddarparwr cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae pob darparwr yn cynnig cyfrif cyfranddeiliad ac mae rhai yn cynnig mathau eraill, gan gynnwys rhai moesegol a Shari'a. Dylech ofyn i ddarparwyr ynglŷn ag unrhyw ffioedd a godir am gynnal y cyfrif.

Mae'r pecyn gwybodaeth a gewch yn cynnwys rhestr o ddarparwyr a gallwch bob amser ddod o hyd i'r rhestr ddiweddaraf yn www.childtrustfund.gov.uk. Fel arall, ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar 0845 302 1489.

Sut rydw i'n agor cyfrif?

Mae rhai darparwyr yn eich caniatáu i agor cyfrif ar-lein neu dros y ffôn heb yr angen i weld y daleb ei hun. Fel arall, gallwch ofyn i'r darparwr a ddewiswyd gennych am ffurflen gais a dylech ei dychwelyd atynt gyda'r daleb os bydd ei hangen arnynt.



Beth ddylwn wneud ar ôl agor cyfrif CYP fy mhlentyn?

- Does dim rhaid i chi ychwanegu at y cyfrif, ond gallai hyd yn oed symiau bychain dyfu yn rhywbeth gwerthfawr ar gyfer eich plentyn pan fydd ef/hi'n cyrraedd 18 oed
- Dywedwch wrth eich teulu a'ch ffrindiau eich bod wedi agor y cyfrif, efallai y byddan nhw eisiau rhoi arian yn y cyfrif hefyd. Cyfanswm yr arian y gellir ei roi yn y cyfrif bob blwyddyn yw £1,200 (ac eithrio taliadau'r Llywodraeth)
- Os dymunwch, gallwch newid y cyfrif neu'r darparwr ar unrhyw adeg

Ble alla' i fynd i gael mwy o wybodaeth?

I gael help i ddewis cyfrif:

- Ewch i www.childtrustfund.gov.uk
- Ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg ar 0845 302 1489, ar agor o 8.30 tan 17.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener
- I siarad â rhywun mewn iaith arall, ffoniwch Linell Gymorth CYP ar 0845 302 1470 a gallwch drefnu gael eich ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus i chi
- I siarad â rhywun yn Saesneg, ffoniwch Linell Gymorth CYP ar 0845 302 1470, ar agor saith diwrnod yr wythnos o 8.00 tan 20.00